# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2002

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl

**2.22pm**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

**2.45pm**
**Cwestiwn Brys**
**Gofynnodd Janet Ryder AC** i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau os byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y trafodaethau a gafwyd rhwng ei Lywodraeth a'r Swyddogion Cynllunio Argyfwng ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau argyfwng yn gallu ymdopi ag unrhyw ddigwyddiad a allai godi yn ystod y gweithredu diwydiannol gan y Gwasanaeth Tân.

**2.54pm**
**Datganiad:** Gwnaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ddatganiad ar Hynt Datblygu Strategaeth Dosbarthu'r Loteri yng Nghymru

**3.27pm**
**Datganiad**: Gwnaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ddatganiad ar ASW Cardiff

**4.00pm**
**Cynnig i gymeradwyo SGR rhif 9 ar Gynlluniau Rheoli Asedau Awdurdodau Lleol**
***NDM1211 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol a Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 9) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Derbyniwyd y cynnig**

**4.09pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
***NDM1210 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*:

Yn unol a Rheol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.16pm**
**Cynnig i gymeradwyo'r Arweiniad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau**
***NDM1213 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes *(Requirement to Register Membership of the Freemasons - LD1663 & LD1663a)* a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002;

2. yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau eraill Aelodau'r Cynulliad;

3. yn cymeradwyo dileu yn ei gyfanrwydd Fuddiant Cofrestradwy 11 yn yr ATODIAD i Reol Sefydlog 4; ac

4. yn cymeradwyo creu'r Rheolau Sefydlog newydd a ganlyn:

(i) Rheol Sefydlog 37;
(ii) Rheol Sefydlog 37 Atodiad; a
(iii) Rheol Sefydlog 16.1(ia.)

fel ag a nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 29; Ymatal 3; Yn erbyn 15; Cyfanswm 47
**Roedd angen mwyafrif o 2/3ydd ac felly gwrthodwyd y cynnig**

**4.56pm**
**Dadl Fer: *NDM1209* - Dafydd Wigley (Caernarfon) - Gweithgareddau Diwylliannol a Chwaraeon yn Ysgolion Cymru.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.27pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 20 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 12 Tachwedd 2002

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 - LD1673
- Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Cymru) 2002 - LD1674
- The Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002 - LD1675 - Dim Copi Cymraeg ar gael
- The Plant Protection Products (Amendment) (No. 3) Regulations 2002 - LD1676 - Dim Copi Cymraeg ar gael
- Plant Protection Products (Amendment) (No.3) Regulations 2002 - Explanatory Memorandum - LD1677 - Dim Copi Cymraeg ar gael
- The Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002 - Explanatory Memorandum - LD1678 - Dim Copi Cymraeg ar gael
- The Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002 - Partial Regulatory Impact Assessment - LD1679 - Dim Copi Cymraeg ar gael

### Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau

- LC555 - Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002 -LD1668
- LC556 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1669
- LC557 - Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1670
- LC558 - Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002 - LD1671
- LC559 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu)